# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**2015 dccc 2**

## RHAN 3

COMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL CYMRU

*Panel cynghori'r Comisiynydd*

### 27 Aelodau penodedig

(1) Cyn penodi aelod o dan adran 26(2)(h) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiynydd.

(2) Mae aelod penodedig yn dal y swydd am gyfnod o ddim llai na 3 blynedd a dim mwy na 5 mlynedd fel y penderfynir gan Weinidogion Cymru.

(3) Caniateir ailbenodi aelod penodedig unwaith, am gyfnod pellach o ddim llai na 3 blynedd a dim mwy na 5 mlynedd (pa un a yw'r cyfnod hwn yn gyfnod olynol wedi penodiad cyntaf yr aelod ai peidio).

(4) Caiff Gweinidogion Cymru roi taliad cydnabyddiaeth i aelodau penodedig.

(5) Caiff aelod penodedig ymddiswyddo o'r panel drwy roi hysbysiad ysgrifenedig o ddim llai na 3 mis i Weinidogion Cymru o fwriad yr aelod i wneud hynny.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru ar ôl ymgynghori â'r Comisiynydd ddiswyddo aelod penodedig os yw'n fodlon bod yr aelod—

(a) yn anaddas i barhau i fod yn aelod o'r panel, neu

(b) yn analluog neu'n anfodlon i weithredu fel aelod.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 27 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(2)**

**I2** A. 27 mewn grym ar 16.10.2015 gan O.S. 2015/1785, **ergl. 2(i)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/02/2016.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 27.